GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Greener Primary Care Wales

Canolfan Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol
Datblygu Gofal Sylfaenol yng Nghymru
Primary and Community Care Development and Innovation Hub
Developing Primary Care in Wales

Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru

Blwyddyn 2 (2023)

Adroddiad diwedd blwyddyn

Mawrth 2024

Cynnwys

1. Cefndir 2

2. Uchafbwyntiau Blwyddyn 2 3
2.1 Codi ymwybyddiaeth 3
2.2 Eirioli 4
2.3 Camau Gweithredu 5

3. Lledaenu ac ehangu 8

4. Y camau nesaf 9

Atodiad 1- Rhestr o gyflwyniadau 11
Atodiad 2 – Enillwyr y gwobrau 12
Atodiad 3 - Camau addasu 14

1. Cefndir

Lansiwyd Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru ym mis Mehefin 2022. Nod y Cynllun yw cefnogi practisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd gofal sylfaenol a phractisau optometreg cymunedol i gymryd camau amgylcheddol cadarnhaol.

Mae animeiddiad byr yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r Cynllun.

Yn 2017, nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y newid yn yr hinsawdd yn fygythiad sy'n dod i'r amlwg i iechyd. Mae'r adroddiad Iechyd a'i benderfynyddion yng Nghymru (2018) yn disgrifio goblygadau'r newidiadau a ragwelir i iechyd. Ategwyd hyn gan Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd a llesiant ledled Cymru. Mae'r cysylltiad rhwng y newid yn yr hinsawdd ac iechyd yn ffordd ddefnyddiol o ysgogi'r gweithlu gofal sylfaenol i weithredu.

Ers i Lywodraeth Cymru ddatgan yn 2019 ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn edrych ar yr hyn y gellid ei wneud ar sail 'unwaith i Gymru' i gefnogi'r sector gofal sylfaenol i weithredu ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Roedd hyn mewn ymateb i'r gofyniad i sicrhau gostyngiad o **16%** mewn allyriadau erbyn **2025** a **34%** erbyn **2030** yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r targedau wedi helpu gyda'r gwaith ymgysylltu ac wedi ysgogi practisau i gymryd rhan.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canolbwyntio ar gyfraniad y maes gofal sylfaenol o fewn y system gofal iechyd ehangach am nifer o resymau. Caiff y gyfran helaethaf o ofal iechyd (90%) ei ddarparu mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac felly mae'r maes yn cyfrannu'n helaeth tuag at ôl troed carbon gofal iechyd. Mae contractwyr gofal sylfaenol hefyd yn gweithredu fel busnesau annibynnol sy'n cael eu contractio drwy fyrddau iechyd, fodd bynnag mae rhanddeiliaid yn aml yn ystyried eu bod y tu allan i'r GIG ac felly nad yw'r targed sero net erbyn 2030 yn berthnasol iddynt. Cafodd hyn ei atgyfnerthu pan gyhoeddwyd Cynllun Cyflenwi Datgarboneiddio GIG Cymru sy'n cyfrifo ôl troed carbon y GIG yn seiliedig ar ddata o ysbytai yn unig, heb ystyried yr effaith yr oedd gofal sylfaenol yn ei chael. Ategwyd hyn drwy gyhoeddi Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru sy'n cyfrifo ôl troed carbon GIG Cymru yn seiliedig ar ddata o ysbytai yn unig, heb ystyried yr effaith yr oedd gofal sylfaenol yn ei chael.

Y Cynllun yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac fe'i darperir mewn partneriaeth ag SOS-UK Green Impact. Mae hefyd wedi cael ei gymeradwyo gan nifer o gyrff proffesiynol fel rhan o Grŵp Arbenigol y Cynllun. Mae cael cymeradwyaeth gan sefydliadau proffesiynol a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru wedi bod yn allweddol wrth lunio'r Fframwaith, hyrwyddo'r Cynllun i'r gweithlu a chreu partneriaethau i'w gyflawni.

Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu clinigol ac anghlinigol, y cytunwyd arnynt gan y Grŵp Arbenigol. I gyd-fynd â phob cam gweithredu mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau i helpu gyda gweithredu'r Cynllun. Mae practisau'n dewis pa gamau i'w cymryd eu hunain a chaiff un pwynt ei ddyfarnu am bob cam gweithredu sy'n cael ei gwblhau, yn amodol ar archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth i nifer y camau gweithredu sy'n cael eu cwblhau gynyddu, felly hefyd lefel y wobr (o efydd, i arian ac aur). Mae llawer o'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar liniaru yn unol â Chynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, ond mae camau ar gyfer addasu, gan gynnwys cynllunio ar gyfer mynediad i wasanaethau gofal iechyd sylfaenol pe bai gwasanaethau'n methu oherwydd digwyddiadau andwyol megis tywydd eithafol, hefyd yn cael eu cynnwys. Mae'r camau gweithredu hefyd yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus a Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. Uchafbwyntiau Blwyddyn 2

Roedd nifer o uchafbwyntiau yn ystod Blwyddyn 2 y Cynllun. Nodir rhai enghreifftiau isod o dan y themâu codi ymwybyddiaeth, eiriolaeth a gweithredu.

2.1 Codi ymwybyddiaeth

- Dechreuodd blwyddyn 2 gyda gweminar ail-lansio a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mawrth 2023. Cadeiriwyd y weminar gan Kate Eden, Is-Gadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Grŵp Arbenigol Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru. Yn y digwyddiad ail-lansio rhoddwyd trosolwg o'r Cynllun, sut i gymryd rhan, arddangosiad ymarferol o'r pecyn cymorth ar-lein a myfyrdodau gan bractisau a gymerodd ran yn ystod 2022.

- Yn ystod 2023, gwnaed cyflwyniadau niferus i ystod eang o randdeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun. (Atodiad 1)

- Cyfathrebu anuniongyrchol drwy randdeiliaid a chynrychiolwyr Grwpiau Arbenigol i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun.

- Gweithdy a chyflwyniad poster yn Y Pwynt Tyngedfennol: Ble nesaf ar gyfer iechyd a gofal? Cynhadledd Comisiwn Bevan i nodi 75 mlynedd ers sefydlu'r GIG yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2023.

- Rhoi amlygrwydd i enghreifftiau yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru 2023 a oedd yn cynnwys sesiwn fyw yn dwyn y teitl Mynd i'r Afael ag Effeithiau Newid Hinsawdd ar Iechyd Cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru / Llywodraeth Cymru), astudiaeth achos a recordiwyd ymlaen llaw ar Hyrwyddwyr a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru / Partneriaethau Lleol) a chyfeirio pobl at ragor o wybodaeth drwy'r tudalennau Adnoddau.

- Roedd y Cynllun yn enghraifft o astudiaeth achos yn Adroddiad Blynyddol 2023 y Prif Swyddog Meddygol.

- Erthygl yn dwyn y teitl Community pharmacy in Wales reaches net-zero emissionsn yn The Pharmaceutical Journal. Ar-lein Rhagfyr 2023.

- Datblygu animeiddiad ar gyfer Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru i hyrwyddo'r fenter.

2.2 Eirioli

- Yn 2023 cyhoeddi Blwyddlyfr Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru 2022 o ganlyniad i gais llwyddiannus i Raglen Genedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd hwn yn un o ychydig o brosiectau a ariannwyd yn y maes gofal sylfaenol i dderbyn cyllid o gylch 1.

- Rhagor o gyllid grant gan Raglen Genedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol – rownd 2 i gefnogi pedwar pecyn gwaith i eirioli dros ofal sylfaenol a hyrwyddo'r Cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys:

  Pecyn gwaith 1 - Profi prawf cysyniad Hyrwyddwr Hinsawdd Gofal Sylfaenol. Hyfforddwyd saith hyrwyddwr i ddarparu allgymorth addysgol lleol i gontractwyr a chlystyrau gofal sylfaenol unigol. Pob un wedi'i leoli mewn un ardal bwrdd iechyd.

  Pecyn gwaith 2 - Meithrin dealltwriaeth ymddygiadol o rwystrau a galluogwyr er mwyn i gontractwyr gofal sylfaenol gymryd camau i ddatgarboneiddio.

Pecyn gwaith 3 - Cyfrifo gwerthoedd arbed carbon ar gyfer camau gweithredu yn Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru 2023.

Pecyn gwaith 4 - Dylunio a datblygu cyfres o adnoddau ac asedau y gellir eu defnyddio i annog gofal sylfaenol i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Oherwydd sefyllfa ariannol Cymru, roedd argaeledd cyllid o Raglen Genedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ansicr. Buom yn gweithio gyda'r Is-adran Gofal Sylfaenol a'r gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu a'r Tîm Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru i gytuno ar achos eithriadol dros gael cyllid i gefnogi gofal sylfaenol i gymryd camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

- Gwaith parhaus gyda chontractio gofal sylfaenol i nodi cyfleoedd i ymgorffori camau gweithredu sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd mewn contractau gofal sylfaenol.

- Sefydliad a rhoi arweiniad i ***Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ddefnyddio a gwaredu anadlyddion*** er mwyn darparu dull cydgysylltiedig, goruchwyliaeth genedlaethol, mewnbwn a chymorth i fynd i'r afael â defnyddio a gwaredu anadlyddion yng Nghymru yn unol â'r mentrau perthnasol yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021).

- Dylanwadu ar Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023-2025 i gynnwys pennod ar y newid yn yr hinsawdd a rôl gofal sylfaenol wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd i'w cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig cysylltiedig.

- Ysgogi trafodaethau ynghylch ymgorffori newid yn yr hinsawdd mewn ymarfer proffesiynol.

2.3 Camau Gweithredu

- Roedd Blwyddyn 2 yn cynnwys 54 o gamau gweithredu ac roedd 33 o'r rheini'n gyffredinol berthnasol i staff mewn unrhyw leoliad gofal sylfaenol, a 21 yn ymwneud â chontractwyr penodol.

Ffigur 1: Enghraifft o weithred yn y pecyn cymorth[1]

- Cyflawnwyd cyfanswm o 1,724 o gamau gweithredu sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd yn ystod Blwyddyn 2 gan bractisau a gymerodd ran ac roedd y rhain yn cynnwys 635 o gamau gweithredu gan bractisau annibynnol a 1,089 o gamau gweithredu ar draws 99 o siopau Boots yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r 638 o gamau gweithredu a adroddwyd ym Mlwyddyn 1. Gyda'i gilydd mae dros 2,362 o gamau gweithredu hinsawdd-gyfeillgar wedi'u rhoi ar waith ar draws gofal sylfaenol dros gyfnod o 2 flynedd.

  Ffigur 2: Delwedd a ddarparwyd gan SOS-UK yn dangos nifer y camau gweithredu a gyflawnwyd yn ystod 2023[2]

- Rhoddir dadansoddiad o gofrestriadau, camau gweithredu a dyfarniadau yn nhabl 1 a 2 isod.

[1] Llun o becyn cymorth SOS-UK (ddim ar gael yn Gymraeg)
[2] Ffigur a ddarperir gan SOS-UK (ddim ar gael yn Gymraeg)

Tabl 1 – Dadansoddiad o'r practisau a gymerodd ran, y gwobrau a'r camau gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2

Blwyddyn 2
85 o dimau wedi cofrestru - 37 practis cyffredinol - 6 fferyllfa gymunedol - 27 deintyddfa gofal sylfaenol - 15 practis optometreg gofal sylfaenol
99 o siopau fferyllfeydd cymunedol Boots drwy wobr gorfforaethol
124 o unigolion wedi cofrestru
25 o wobrau - 7 Efydd - 7 Arian - 11 Aur
18 practis wedi ennill y Wobr Cyfranogiad Gweithredol*
4 enillydd Gwobr Arbennig**
45 o dimau wedi cwblhau o leiaf un cam gweithredu
Y nifer fwyaf o gamau gweithredu a gymerwyd gan un tîm (n=39)
635 camau cyfeillgar i'r hinsawdd

*Enillodd 18 o dimau y Wobr Cyfranogiad Gweithredol sy'n cydnabod timau sydd wedi dechrau symud ymlaen tuag at yr 8 pwynt sydd eu hangen i gael gwobr efydd.

** Enwebwyd tri phractis ac un unigolyn a gyfer Gwobr Arbennig. Bob blwyddyn, mae Gwobrau Arbennig SOS-UK yn cael eu dyfarnu gan bob prosiect Effaith Werdd unigol ledled y wlad, gan gynnwys Cynllun Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru. Rhoddir y gwobrau i bobl a thimau sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ddisgwyliedig i sicrhau cynaliadwyedd. Mae'r gwobrau hyn yn adlewyrchu ehangder y camau gweithredu cadarnhaol sy'n digwydd yn y DU drwy'r Cynllun ac yn amlygu rhai o'r ymdrechion efallai nad yw'r gwobrau Efydd, Arian ac Aur nodweddiadol yn eu cynrychioli'n llawn. Yna caiff enwau enillwyr y Gwobrau Arbennig lleol hyn eu cyflwyno i'w hystyried ar gyfer y Gwobrau Cenedlaethol Effaith Werdd blynyddol, a gyhoeddir fel arfer ym mis Mai bob blwyddyn.

- Ceir manylion holl enillwyr y gwobrau yn Atodiad 2.

Tabl 2 - Dadansoddiad o bractisau fesul Bwrdd Iechyd *(nid yw'r tabl hwn yn cynnwys siopau Boots)*

Bwrdd Iechyd	Nifer
BIP Aneurin Bevan	15
BIP Betsi Cadwaladr	5
BIP Caerdydd a'r Fro	16
BIP Cwm Taf Morgannwg	17
BIP Hywel Dda	13
BIA Powys	10
BIP Bae Abertawe	9

- 450 o unigolion wedi cymryd rhan yn y cynllun.

- Cynnig corfforaethol newydd wedi'i ddatblygu gyda Boots (fferyllfa gymunedol). Boots yn ennill gwobr efydd (fferylliaeth ac optometreg) sy'n golygu bod dros 99 o siopau Boots ledled Cymru wedi ennill gwobr efydd. Mae hyn yn ychwanegol at y 25 gwobr a nodir yn nhabl 1.

- Adroddodd nifer o bractisau ar gamau addasu am y tro cyntaf. (Gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion).

- Mân ddiwygiadau a gwybodaeth wedi'i diweddaru gyda mewnbwn gan y Grŵp Arbenigol i gefnogi camau gweithredu diwygiedig i'w cynnwys yn y Fframwaith ar gyfer Blwyddyn 2.

- Gofyn am adborth pellach gan y Grŵp Arbenigol yn gynharach ym Mlwyddyn 2 i ddiweddaru a chynnwys unrhyw gamau gweithredu newydd wrth baratoi ar gyfer Blwyddyn 3.

- Cyfathrebu parhaus gyda'r Grŵp Arbenigol ac un cyfarfod wedi'i gynnal ym mis Tachwedd 2023 fel sail i gynllunio ar gyfer Blwyddyn 3. Roedd y cyfarfod

  yn cynnwys pymtheg o gynrychiolwyr o ystod eang o randdeiliaid ar draws y pedwar gwasanaeth contractwyr gofal sylfaenol annibynnol a phartïon eraill.

- Adroddodd canfyddiadau arolwg Amser i Siarad Iechyd y Cyhoedd fod:

  "80% o'r ymatebwyr yn credu y dylai practisau gofal sylfaenol fod yn cymryd camau i leihau eu heffaith ar yr hinsawdd..."

3. Lledaenu ac ehangu

Roedd yr ymgysylltu a'r nifer a gymerodd ran yn y Cynllun ym Mlwyddyn 2 yn debyg i Flwyddyn 1 gyda thros 630 o gamau gweithredu'n cael eu hadrodd yn y naill flwyddyn a'r llall, fodd bynnag ni lwyddodd y Cynllun i ledaenu ac ehangu cymaint â'r gobaith yn ystod Blwyddyn 2. Trafodwyd hyn gyda'r Grŵp Arbenigol ym mis Tachwedd 2023 i nodi ffyrdd o godi ymwybyddiaeth a phroffil y Cynllun, yn ogystal â chynyddu ymgysylltiad contractwyr gofal sylfaenol.

Mae nifer o feysydd yn dod i'r amlwg a byddant yn cael eu harchwilio gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol yn ystod 2024:

- Y gobaith yw y bydd y gwaith dealltwriaeth ymddygiadol sydd ar y gweill ac a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024 yn helpu i ddeall y rhwystrau i gyfranogiad.

- Mae aelod o'r tîm, Sian Evans, wedi cael ei derbyn ar raglen dwy flynedd Cymrodoriaeth Bevan 2024 i archwilio sut y gall Comisiwn Bevan helpu i ehangu'r gwaith.

- Ymchwilio i hyrwyddo'r fenter i hyfforddeion proffesiynol gofal iechyd fel rhan o'u rhaglen hyfforddi. Ar hyn o bryd, mae hyn yn digwydd i hyfforddeion deintyddol drwy raglen AaGIC. Gellid ymchwilio i hyn a'i ystyried ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill.

- Parhau i ystyried plethu cynaliadwyedd amgylcheddol i'r contractau proffesiynol unigol lle bo modd. Er enghraifft, ym maes optometreg, mae'r Cynllun wedi'i gynnwys yn y fframwaith newydd, sef y Fframwaith Ansawdd mewn Optometreg gyda chamau gweithredu ynghylch ymwybyddiaeth a gweithredu.

- Ymchwilio i fathau eraill o gydnabyddiaeth ar draws y system ar gyfer cymryd rhan yn y Cynllun. Er enghraifft, cynhaliodd Optometreg Cymru seremoni wobrwyo a oedd yn cynnwys y Wobr Arfer Gwyrdd.

- Ymchwilio i ba asedau a fyddai'n helpu practisau i ddefnyddio'r Cynllun fel cyfle i hyrwyddo eu busnes.

- Adeiladu ar lwyddiant gwobr gorfforaethol efydd Boots drwy annog fferyllfeydd cymunedol Boots unigol i roi camau gweithredu ychwanegol ar waith a chyflawni gwobr arian.

- Ehangu'r dyfarniad corfforaethol newydd i broffesiynau contractwyr eraill e.e. optometreg. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Specsavers.

- Dadansoddi canlyniad cynllun peilot Hyrwyddwyr lleol sy'n cael ei roi ar waith rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2024 i lywio'r model a'r mecanwaith ar gyfer cyflawni'r Cynllun yn y dyfodol.

- Nodi ac adrodd ar arbedion carbon sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith.

4. Y camau nesaf

Mae'r Cynllun wedi'i ariannu tan ddiwedd mis Rhagfyr 2024. Bydd Blwyddyn 3 yn ymestyn o fis Ionawr 2024 tan fis Hydref/Tachwedd 2024 pan gynhelir yr archwiliadau.

Byddwn yn chwilio am gyllid i barhau â'r Cynllun y tu hwnt i fis Rhagfyr 2024 yn ystod Ch4 2024.

Atodiad 1- Rhestr o gyflwyniadau

Grŵp prosiect Dulliau Gofal Iechyd	13	Ionawr	2023
Arweinwyr Cenedlaethol Iechyd Gwyrdd Cymru	16	Chwefror	2023
Grŵp Buddiannau Gofal Sylfaenol (gyda Thimau Iechyd Cyhoeddus Lleol y Bwrdd Iechyd)	16	Chwefror	2023
Cyfarfod (clwstwr) NCN Gogledd Caerffili	9	Mawrth	2023
Cyfarfod (clwstwr) NCN De Caerffili	16	Mawrth	2023
Gweminar Ail-lansio Gofal Sylfaenol Gwyrddach (Blwyddyn 2)	20	Mawrth	2023
Cyfarfod (clwstwr) NCN Dwyrain Caerffili	23	Mawrth	2023
Cynhadledd Comisiwn Bevan: Y Pwynt Tyngedfennol - Ble nesaf ar gyfer iechyd a gofal? Sesiwn grwpiau: Dwyn gyda Balchder- I Leihau Gwastraff- Bevan	6	Gorffennaf	2023
Dysgu Dros Ginio (mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru)	8	Awst	2023
Cwrdd a Chyfarch Hyrwyddwyr Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru	11	Hydref	2023
Is-adran Gofal Sylfaenol (Iechyd Cyhoeddus Mewnol Cymru)	11	Hydref	2023
Sioe Fferylliaeth 2023, NEC Birmingham	15	Hydref	2023
Grŵp Cynllunio Trawsglwstwr Gorllewin Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	17	Hydref	2023
Bwrdd Rhaglen Datgarboneiddio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	16	Tachwedd	2023
Grŵp Cynllunio Trawsglwstwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	22	Tachwedd	2023
Grŵp Arbenigol Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru	29	Tachwedd	2023
Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan	1	Rhagfyr	2023
Wythnos Hinsawdd Cymru - cyfeirio pobl at ragor o wybodaeth drwy Adnoddau	4	Rhagfyr	2023
Wythnos Hinsawdd Cymru - sesiwn fyw ynghylch Mynd i'r Afael ag Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd ar Iechyd Cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru / Llywodraeth Cymru)	7	Rhagfyr	2023
Wythnos Hinsawdd Cymru - astudiaeth achos wedi'i recordio ymlaen llaw Hyrwyddwyr a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru / Partneriaethau Lleol)	8	Rhagfyr	2023

Atodiad 2 – Enillwyr y gwobrau

Enillwyr Gwobrau Efydd, Arian ac Aur

Green Impact GOLD AWARD
Delivered by Students Organising for Sustainability - UK

Llongyfarchiadau i'r 7 tîm a enillodd wobr Efydd, i'r 7 tîm a enillodd wobr Arian ac i'r 1 tîm a enillodd wobr Aur eleni!

- Deintyddfa Bracla
- Optegwyr C. N. O'Leary
- Greenacre Orthodontics
- Jonathon Partridge Optometrists
- Meddygfa Kingsway
- Practis Meddygol Trefaldwyn
- Canolfan Feddygol Nantgarw Road
- North Cardiff Dental and Implants
- Optegwyr Pearce and Blackmore
- Gofal Llygaid Probert & Williams
- Vale View Dental Care

Green Impact BRONZE AWARD
Delivered by Students Organising for Sustainability - UK

- Boots
- Cwtch Dental Care
- Meddygfa Llynyfran
- Monnow Eyecare
- Meddygfa Roath House
- Specsavers Tonysguboriau
- Practis Grŵp Ystradgynlais

Green Impact SILVER AWARD
Delivered by Students Organising for Sustainability - UK

- Canton Optical Ltd
- Canolfan Iechyd y Tyllgoed
- Practis Llanfyllin
- Penarth Eye Centre
- Optometryddion Rook & Thomas
- Canolfan Ddeintyddol y Bont Faen

Enillwyr Gwobrau Cyfranogiad Gweithredol

Green Impact PARTICIPATION AWARD
Delivered by Students Organising for Sustainability - UK

Mae'r wobr cyfranogi yn cydnabod bod y timau hyn wedi dechrau gwneud cynnydd tuag at yr 8pwynt sydd eu hangen i gael gwobr Efydd drwy nodi eu bod wedi cwblhau rhai camau gweithredu eleni!

Rydym yn gobeithio gweld y timau newydd hyn yn parhau â'u taith tuag at gynaliadwyedd ac yn ennill gwobr lawn yn 2024.

- Tîm Meddygol Aber – De Caerffili
- Bargoed Sight Centre
- Meddygfa Court Road
- Deintyddfa Cwmbwrla
- Clinig Deintyddol Cymunedol Glan Irfon
- Glyn-nedd
- Kirsty Herbert
- Meddygfa Middle Lane
- Mydentist Mill Lane
- Meddygfa New Chapel Street
- Gwasanaeth Deitnyddol Cymunedol Powys
- Specsavers Aberhonddu
- Meddyga St Peters
- Symbiosis Dental
- Vergam
- Canolfan Feddygol yr Eglwys Newydd

Enillwyr Gwobrau Arbennig

- **Gwobr Arwr Cynaliadwyedd:**
  Flo King, North Cardiff Dental & Implants, Caerdydd

  Cydnabod unigolyn nodedig sy'n rhan o dîm Effaith Werdd sydd wedi dod yn arwr cynaliadwyedd. Efallai eu bod wedi helpu eraill yn eu tîm i sylweddoli pwysigrwydd gweithredu ar yr hinsawdd, ysbrydoli pobl i gymryd rhan drwy eu brwdfrydedd, neu fod yn dda iawn am roi arferion cynaliadwyedd ar waith o fewn eu rôl neu yn eu bywyd personol.

- **Gwobr Arloesi i Ymgysylltu:**
  Greenacre Orthodontics, Cei Connah

  Cydnabod ffyrdd y mae timau Effaith Werdd wedi cynnwys mwy o bobl mewn gweithgareddau cynaliadwyedd, gan gefnogi mwy o staff a myfyrwyr i ddysgu am gynaliadwyedd ac arwain arno. Mae'r wobr hon yn tynnu sylw at arloesi creadigol wrth ymgysylltu â staff a myfyrwyr: y mwyaf o bobl y gallwn ymgysylltu'n weithredol â nhw, y mwyaf yw'r effaith gadarnhaol y gallwn ei chael.

- **Gwobr Gwella Cynaliadwyedd:**
  Meddygfa Kingsway, Abertawe

  Cydnabod gwelliant amgylcheddol neu fenter sydd wedi'i rhoi ar waith i gael effaith wirioneddol o fewn timau Effaith Werdd, neu'r tu hwnt iddynt. Mae pob cam o fewn y rhaglen Effaith Werdd wedi'i gynllunio i wneud gwelliannau cynaliadwyedd cadarnhaol, ond mae'r wobr hon yn arddangos y mentrau hynny sydd wedi mynd gam ymhellach i gael effaith arbennig o arwyddocaol.

- **Gwobr Gweithredu yn y Gymuned:**
  Optegwyr Pearce & Blackmore, Caerdydd

  Cydnabod sut y mae timau Effaith Werdd wedi arwain, datblygu, neu gymryd rhan mewn camau gweithredu arloesol yn y gymuned. Gall enghreifftiau gynnwys gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, datblygu prosiectau newydd, a helpu eu sefydliad i ddatblygu'r capasiti ar gyfer cynaliadwyedd yn y gymuned ehangach.

Atodiad 3 - Camau addasu

Camau addasu a adroddwyd gan bractisau a gymerodd ran yn y Cynllun
Wedi gwirio'r risg llifogydd ar gyfer y ddau bractis ac mae'n llai nag 0.1%. Mae optometrydd yn gallu cerdded i'r ddau bractis fel y gallant aros ar agor os bydd eira.
Mae gennym raean wrth law yn y ddau bractis rhag ofn y bydd rhew neu eira.
Mae gan ein practis Weithdrefnau Cynllunio ar gyfer Trychinebau ac Argyfyngau yr ydym yn eu dilyn os byddwn yn cael unrhyw broblemau daearyddol neu dechnegol yn y practis.
Mae gennym bolisi tywydd eithafol sy'n rhan o lawlyfr y practis ac a adolygwyd yn ddiweddar gan AaGIC yn ystod ei arolygiad.
Wedi rhoi cynllun parhad busnes yn ei le ac mae'n cynnwys gwybodaeth am hysbysu cleifion am dywydd eithafol. Mae map llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod adeilad y Practis mewn ardal â risg isel o lifogydd.
Rhybuddion tywydd y Swyddfa Dywydd a dolen i gyngor swyddogol wedi'i bostio ar wefan y Practis a'r cyfryngau cymdeithasol.
Eleni fe wnaethom weithredu Cynllun Parhad Busnes sy'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn y dylai'r busnes ei wneud rhag ofn y bydd digwyddiadau eithafol. Ynghlwm mae fersiwn wedi'i golygu o'n Cynllun Parhad Busnes.
Mae gwefan llywodraeth Cymru wedi dangos bod y practis deintyddol ar dir isel iawn ar gyfer unrhyw lifogydd o afonydd, moroedd, a chyrsiau dŵr. Mae ein practis wedi cyflwyno 'polisi tywydd gwael' sy'n hysbysu cleifion drwy e-bost am unrhyw ddiweddariadau tywydd a beth i'w wneud. Y cyngor ar gyfer unrhyw faterion yn ymwneud â gwres fyddai aros gartref os oes unrhyw beryglon o ran teithio i'r practis ac yfed digon o ddŵr. Os yw'r claf yn y practis pan fydd rhybudd tywydd yn cael ei gyhoeddi, yna mae gan y practis system aerdymheru.
Fel practis, anfonwyd negeseuon testun at gleifion mewn tywydd gwael fel eira, mellt a tharanau a glaw. Rydym yn anfon y negeseuon y noson cyn y rhagwelir unrhyw dywydd garw. Mae hyn yn galluogi cleifion i benderfynu a ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn mynychu eu hapwyntiadau heb deimlo'n euog os nad ydynt yn gwneud hynny.
Nid oes llawer y gallwn ei wneud i ddelio â gwres eithafol. Fodd bynnag, rydym wedi cael ein gorfodi i gymryd camau i liniaru effeithiau glaw trwm iawn - rydym yn cadw cofnodion meddygol papur yn y seler ond mae'n gorlifo pan fydd y draeniau stormydd tanddaearol yn llawn. Er gwaethaf y defnydd o bympiau i glirio dŵr o'r islawr rydym wedi cael ein gorfodi i osod llawr ffug uchel yn yr ystafell honno i gadw'r cofnodion yn sych.
Mae'r cynllun ar gael ar gais.
Mae gan y practis gynllun parhad busnes ar waith, ac mae'r cynllun hwn yn cynnwys adrannau ar dywydd eithafol, colli mynediad yn y tymor hir a'r tymor byr, llifogydd, tân, a cholli cyflenwad dŵr. Mae'r practis wedi cyfeillio â phractis cyfagos yng Nghlwstwr Gogledd Powys.

Mae gan gyfarwyddwyr a staff rifau ffôn ei gilydd er mwyn gallu cysylltu â phawb yn gyflym ac yn hawdd.
Yn ystod tywydd eithafol, fel yr eira dros Gymru benbaladr ym mis Mawrth 2023, cynhelir asesiad risg deinamig bob tro i sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu. Yn yr achos diweddaraf hwn, penderfynwyd cau'r practis am 2 ddiwrnod er mwyn sicrhau nad oedd cleifion yn teimlo rheidrwydd i deithio mewn amodau anniogel. Mae hyn bob amser yn gydbwysedd anodd, ond fe'i cynorthwyir gan aelodau o staff yn teithio i mewn o wahanol gyfeiriadau, ac felly ceir gwell ymwybyddiaeth o'r sefyllfa a gellir gwneud penderfyniadau mwy cywir ac amserol.
Mae gennym gynllun ymyrraeth busnes sefydledig sy'n cynnwys rheolwr brys a manylion cyswllt. Rydym wedi defnyddio'r offeryn asesu perygl llifogydd ar-lein a chanfod bod risg isel o lifogydd i'r practis. Mae'r polisi llawn yn cynnwys manylion personol; felly nid yw wedi'i gyflwyno'n llawn fel tystiolaeth.
Prynwyd gwyntyllau a gwresogyddion, ac rydym yn ymchwilio i wisg newydd ar gyfer y staff.
Mae gennym bolisi tywydd garw. Yn ogystal â hynny, mae gan y practis gynllun parhad busnes sy'n ystyried colli gwasanaethau. Mae ein meddalwedd rheoli cleifion yn y cwmwl ac felly mae'n hygyrch oddi ar y safle, yn achos tywydd garw / trychineb, gellir anfon neges destun at gleifion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.
Rydym wedi gosod system aerdymheru i ddiogelu ein cleifion rhag gorludded gwres a dadhydradu yn ystod y gwres eithafol.
Mae'r ddwy feddygfa dros 20 oed ac fel practis pan fydd rhaid newid uned olau rydym yn disodli'r rhain gyda golau LED sy'n fwy effeithlon ac a fydd yn para'n hirach gobeithio.